# LANSIO YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR GYFER LLŶR 1

## BLWYDDYN NEWYDD DDA

Gobeithio bod pawb wedi mwynhau dathliadau'r Nadolig a nawr yn edrych ymlaen at flwyddyn newydd hapus ac iach.

Yma yn Floventis Energy, rydym wrthi'n paratoi ar gyfer cyfnod prysur oherwydd bydd yr ymgynghoriad ar Llŷr 1 yn dechrau ddydd Llun 15 Ionawr ac yn para tan ddydd Sul 11 Chwefror 2024 gyda'r ymgynghoriad ar Llŷr 2 yn dilyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn cyfres o Ddiwrnodau Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a gynhaliwyd gennym yn ystod yr haf diwethaf yn ogystal â'n presenoldeb mewn nifer o ddigwyddiadau cymunedol ledled y rhanbarth. Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i'n gweld. Mae'r digwyddiadau wedi ein helpu i lunio ein dull o gynnal yr ymgynghoriad a fydd yn dechrau'r mis hwn.

Byddwn yn cynnal digwyddiadau ymgynghori mewn gwahanol leoliadau ar draws y rhanbarth, ochr yn ochr â chynnal ein harddangosfa rithiol a fydd yn agored i bawb ar wefan Llŷr, www.llyrwind.com.

O ystyried pwysigrwydd yr ymgynghoriad, mae'r cylchlythyr hwn yn canolbwyntio ar ein dull gweithredu yn unig, pam rydym yn ymgynghori a sut gallwch chi gymryd rhan neu annog eraill i wneud hynny.

Byddem yn falch o'ch gweld yn unrhyw un o'r digwyddiadau felly dewch draw. Byddwn yn falch o ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi.

Gyda'r dymuniadau gorau,

Tess Blazey

**Tessa Blazey**
Cyfarwyddwr Polisi a Chysylltiadau Allanol




*Tîm Floventis yng Nghynhadledd Ynni Dyfodol Cymru.*

# YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS
## 15 IONAWR TO 11 CHWEFROR 2024


Fel y gwyddoch, rydym wedi bod yn ymgysylltu â thrigolion lleol, busnesau a sefydliadau cymunedol ledled y rhanbarth dros y ddwy flynedd diwethaf ynglŷn â’n gwaith o ddatblygu dwy fferm wynt arnofiol yn y Môr Celtaidd, sef Llŷr 1 a Llŷr 2.

Bydd y rhain ymysg y prosiectau arddangos a phrawf gwynt arnofiol ar y môr cyntaf i gael eu datblygu a’u hadeiladu yn y DU, gan ddangos y genhedlaeth nesaf mewn technoleg ynni adnewyddadwy glân ar y môr. Bydd y ddau brosiect yn gosod safon newydd ar gyfer llwybrau i leihau costau ar gyfer datblygiadau gwynt arnofiol ar y môr ar raddfa fawr, a byddant yn:

- Gweithredu fel cynllun braenaru i gyflymu’r gwaith o ddatblygu ynni gwynt arnofiol ar y môr.
- Rhoi cyfle i ddeall y manteision a’r heriau’n well, yn ogystal â chanfod cyfleoedd i wella’r amgylchedd lleol.
- Darparu’r cyfleoedd mwyaf posibl o ran y gadwyn gyflenwi leol a chyflogaeth, gan gyfrannu at yr economi leol a rhanbarthol.

Bydd yr ymgynghoriad ar ein cynigion ar gyfer Llŷr 1 yn cael ei gynnal rhwng **15 Ionawr ac 11 Chwefror 2024**. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar gynigion ar gyfer Llŷr 1. Bydd yr ymgynghoriad ar gyfer Llŷr 2 yn dilyn yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Byddwn hefyd yn ysgrifennu at drigolion lleol, busnesau a grwpiau cymunedol i roi gwybod iddynt sut gallant rannu eu barn ar y datblygiad o 15 Ionawr 2024 ymlaen.




*Aelodau o Milford Youth Matters mewn Diwrnod Ymwybyddiaeth Gyhoeddus ym mis Gorffennaf.*

# PAM RYDYM YN YMGYNGHORI?

Rydym wedi ymrwymo i ymgynghori â'r gymuned a rhanddeiliaid cyn i ni gyflwyno ein ceisiadau am gydsyniad. Bydd yr adborth a ddaw i law yn ystod yr ymgynghoriad hwn yn sail i'n gwaith dylunio ar Llŷr 1. Hoffem wybod a yw trigolion a rhanddeiliaid yn credu y dylem ystyried unrhyw ffactorau – ar y môr ac ar y tir – fel rhan o'r gwaith hwn.

Mae hyn yn dilyn cyfres o Ddiwrnodau Ymwybyddiaeth Gyhoeddus a gynhaliwyd gennym ym mis Gorffennaf 2023, gyda'r nod o gyflwyno ein prosiectau a chodi ymwybyddiaeth ynghylch ein cynigion i drigolion a phartïon sydd â diddordeb ar draws y rhanbarth.




*Un o'n Diwrnodau Ymwybyddiaeth Gyhoeddus yng Ngwesty'r Ty.*

## GWELD EIN CYNIGION

I gael rhagor o wybodaeth:

Edrychwch ar ein **harddangosfa rithiol** lle gallwch weld ein holl ddeunyddiau ymgynghori – a fydd ar gael o 15 Ionawr 2024 ymlaen yn [www.llyrwind.com/cy](http://www.llyrwind.com/cy).

Ewch i un o'n **harddangosfeydd wyneb yn wyneb** lle gallwch weld ein deunyddiau ymgynghori a siarad ag aelodau o'n tîm:

- **Canolfan Ddysgu Gymunedol Doc Penfro**, Sgwâr Albion, SA72 6XF
  Dydd Iau 25 Ionawr
  12:00 – 16:00
- **Tŷ Ffowndri**, Orange Way, Penfro, SA71 4DR
  Dydd Gwener 26 Ionawr
  11:00-15:00
- **Pafiliwn Chwaraeon Hundleton**, Hundleton, SA71 5RD
  Dydd Mawrth 30 Ionawr
  15:00-19:00

Ewch i un o'r lleoliadau isod yn ystod eu horiau agor arferol i gasglu copi o'n llyfryn a'n ffurflen adborth:

- **Llyfrgell Doc Penfro**, Water Street, Doc Penfro, SA72 6DW
- **Llyfrgell a Chanolfan Wybodaeth Penfro**, Commons Road, Penfro, SA71 4EA

# RHANNU EICH ADBORTH

Gellir rhoi adborth drwy un o'r ffyrdd canlynol:

- **Ar-lein** – llenwch ein ffurflen ymateb yn [www.llyrwind.com/cy](www.llyrwind.com/cy).
- **Wyneb yn wyneb** – llenwch ffurflen ymateb yn un o'n digwyddiadau ymgynghori.
- **E-bost** – Ysgrifennwch atom neu anfonwch eich ffurflen ymateb wedi'i llenwi i gyfeiriad e-bost ein prosiect: [info@llyrwind.com](mailto:info@llyrwind.com).
- **Post** – Ysgrifennwch atom neu anfonwch eich ffurflen ymateb i: **Swyddfa 20, Canolfan Arloesi'r Bont, Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro, Doc Penfro SA72 6UN**.

Mae eich barn yn bwysig er mwyn ein helpu i ddeall yr ardal leol yn well ac unrhyw effeithiau posibl y gallai ein cynllun eu cael arnoch chi a'ch cymuned. Bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu cofnodi mewn adroddiad ymgynghori, a fydd yn rhan o'n ceisiadau am gydsyniad.




*Lansiad Materion Dyfodol Aberdaugleddau.*

Byddwn yn hyrwyddo ymgynghoriad cyhoeddus ar ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thrwy'r cyfryngau lleol. Mae croeso mawr i chi ddod i'r holl ddigwyddiadau, a byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech hefyd annog eraill i ddod draw.

## DYDDIAD CAU

FEB 11

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn adborth yw **23:59 ar 11 Chwefror 2024**, felly cyflwynwch unrhyw ymatebion cyn hynny os gwelwch yn dda.

## CYSYLLTU Â NI

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, os hoffech chi gael eich briffio gan y tîm neu os hoffech chi gael copi caled o'n dogfennau ymgynghori, cysylltwch â ni drwy anfon e-bost at [info@llyrwind.com](mailto:info@llyrwind.com), neu ffoniwch ni ar [01646 689275](tel:01646689275) i drafod ffyrdd eraill o weld ein cynigion a rhannu eich adborth.